**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET**

**DYDD IAU, 5 MAWRTH 2020**

**Cabinet Members:**

Cynghorwyr: R.G.Jones (Cadeirydd), C.Clement-Williams, D.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees, P.D.Richards a/ac L.Jones

**Swyddogion yn bresennol:**

S.Phillips, H.Jenkins, N.Pearce, K.Jones, C.Griffiths, H.Jones, A.Thomas, D.Giles, C.Cole, C.Davies a/ac T.Davies

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd R G Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **BLAENRAGLEN WAITH 2019-20**

Fe'i nodwyd gan y pwyllgor

3. **STRATEGAETH GYFALAF A RHAGLEN GYFALAF 2020/21 I 2022/23**

**Penderfyniadau:**

1. Caiff y Rhaglen Gyfalaf ei hadolygu a'i diweddaru dros y flwyddyn sydd i ddod.

2. Argymell y Strategaeth Gyfalaf i'r cyngor i'w chymeradwyo.

3. Argymell y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020/21 i 2022/23, fel a nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad a ddosbarthwyd, i'r cyngor i'w chymeradwyo.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod yn unol â'r Cyfansoddiad.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl eu hystyried a'u cymeradwyo gan y cyngor.

## 4. CYLLIDEB REFENIW 2020/21

**Penderfyniadau:**

1. Dirprwyo'r materion canlynol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, yr Aelod Cabinet perthnasol a Chadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu perthnasol.

- Ffïoedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau gweithredol, sy'n berthnasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21
- Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

2. Penderfynwyd argymell y canlynol i'r cyngor:

i) Sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb 2019/20 - i gymeradwyo sefyllfa ddwygiedig y gyllideb a'r trefniadau ar gyfer 2019/20

ii) Cyllideb Refeniw'r Cyngor 2020/21
- Ystyried effeithiau'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb a Throsedd ac Anhrefn wrth benderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2020/21
- Cymeradwyo gofynion y Gyllideb Refeniw Net ar gyfer 2020/21, a chynlluniau'r gwasanaeth ar gyfer cyflwyno’r cyllidebau.
- Cymeradwyo'r gyllideb/arbedion y blaengynllun ariannol (fel a amlinellwyd yn Atodiad 4)
- Cyfarwyddo Cyfarwyddwyr Corfforaethol i weithredu'r arbedion a'r rhaglen wella ar gyfer yr Awdurdod

iii) Ffïoedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau anweithredol - dirprwyo'r awdurdod i benderfynu ar y materion canlynol i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol priodol yn dilyn ymgynghoriad ag Arweinydd y Cyngor, y Dirprwy Arweinydd a Chadeirydd y pwyllgor anweithredol perthnasol
- Ffïoedd a thaliadau ar gyfer swyddogaethau anweithredol sy'n berthnasol ar gyfer 2020/21
- Ffïoedd a thaliadau sy'n berthnasol ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol ddilynol ac, ym marn y Cyfarwyddwr Corfforaethol, y mae angen penderfynu arnynt cyn y flwyddyn ariannol am resymau gweithredol.

iv) Treth y Cyngor 2020/21 – Y ffigur Band D Cyfwerth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn 2020/21 fydd £1,615.59.

**Rheswm dros y penderfyniad:**

I gyflawni'r gofyniad statudol i benderfynu ar gyllideb ar gyfer 2020/21, i ofyn am gefnogaeth ar gyfer Blaengynllun Ariannol y Cyngor, ac i gytuno ar drefniadau er mwyn penderfynu ar Ffïoedd a Thaliadau.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl iddynt gael eu hystyried a'u cymeradwyo gan y cyngor.

## 5. STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS, STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL A PHOLISI DARPARIAETH ISAFSWM REFENIW 2020/21

**Penderfyniad:**

Argymell y strategaethau a'r polisïau canlynol, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, i'r cyngor i'w cymeradwyo:

- Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
- Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol
- Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw
- Dangosyddion Darbodus

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys; Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol; Strategaeth Gyfalaf a Pholisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel

sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chôd Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (2017).

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl iddo gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y cyngor.

**CADEIRYDD**